

Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod:	24 Gorffennaf 2024
Aelod Arweiniol/Swyddog	Cynghorydd Gwyneth Ellis / Bob Chowdhury, Prif archwilydd mewnol
Awdur yr adroddiad:	Bob Chowdhury – Chief Internal Auditor
Teitl:	Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023 - 2024

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Er mwyn dangos llywodraethu da, rhaid i'r Cyngor ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd a nodir yn rhifyn 2016 y Fframwaith ar gyfer Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (Cymru). Paratwir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan ddefnyddio hunanasesiad ac adroddiadau ar drefniadau llywodraethu a gwella'r cyngor ar gyfer 2023-24, ynghyd â chynnydd wrth fynd i'r afael â'r camau gwella sydd wedi'u cynnwys yn AGS 2022-23.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018. Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle i'r pwyllgor wneud sylwadau ar ddatganiad llywodraethu blynyddol eleni ar wahân i'r Datganiad o gyfrifon fel y gellir rhoi ystyriaeth ddyledus iddo.

3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 Mae'r pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r datganiad llywodraethu blynyddol drafft ar gyfer 2023-24 (Atodiad 1) ac yn monitro'r cynnydd a wnaed ar ffurflen cynllun gweithredu 2022-23.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Datblygwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24 (Atodiad 1) drwy gynnal hunanasesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn erbyn rhifyn 2016 y Fframwaith ar gyfer Llywodraethu Da mewn Llywodraethu Lleol (Cymru).

Cynhaliwyd hyn gyda chefnogaeth swyddogion allweddol o fewn y Cyngor sy'n cynrychioli'r swyddogaethau llywodraethu allweddol ar draws y Cyngor. Cyfeiriodd yr AGS at amrywiol ffynonellau tystiolaeth a ffynonellau sicrwydd megis Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol, Adroddiad Perfformiad Blynyddol, adroddiadau Archwilio Allanol, a chofrestrau risg.

4.2 Mae crynodeb o'r argyfwng costau byw a'r pwysau cyllidebol presennol sy'n wynebu'r Cyngor wedi'u hystyried, ynghyd ag adolygiad o'r ffyrdd newydd o weithio ar gyfer staff ac aelodau. Mae'r datganiad hefyd wedi adolygu cyfarfodydd pwyllgor a sut maent i gyd bellach ar-lein ac wedi'u trefnu ar y we i sicrhau trefniadau llywodraethu da.

4.3 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn amlygu unrhyw feysydd i'w gwella mewn trefniadau llywodraethu mewn cynllun gweithredu. Mae cynnydd yn erbyn cynllun gwella'r flwyddyn flaenorol yn dangos cynnydd da ac mae unrhyw gamau sy'n mynd rhagddynt wedi'u trosglwyddo i gynllun gwella'r flwyddyn gyfredol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Er nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol. Mae'n darparu asesiad a sicrwydd ar gyflawni'r cynllun corfforaethol, perfformiad gweithredol ac ariannol y cyngor, trefniadau llywodraethu, ymgysylltu â'r gymuned ac ati sydd i gyd wedi'u cyfeirio at gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Ddim yn berthnasol.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Cynhyrchwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gyda mewnbwn gan swyddogion llywodraethu allweddol. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Prif Dîm Gweithredol a bydd yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru yn flaenorol) fel rhan o'r archwiliad cyfrifon ariannol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Os na chaiff y Cynllun Gwella Llywodraethu ei roi ar waith, bydd gwendidau yn parhau yn nhrefniadau llywodraethu'r cyngor, a allai arwain i

- Adroddiadau rheoleiddio anffafriol
- Defnydd gwael o arian cyhoeddus
- Methiant i wella meysydd corfforaethol a gwasanaeth allweddol;
- Colli hyder hapddaliwr: a
- Effaith andwyol ar enw da'r cyngor.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.